

## Gwreiddiau – myfyrdod ar gyfer diolchgarwch

Mae'r adeg hon o'r flwyddyn bob amser yn hudolus yn ein hardaloedd gwledig – gwrth tyfiant y flwyddyn yn dod i ffrwyth yn y cynhaeaf. Bydd golygfa brydferth yn ein hwynebu yn yr oedfaon diolchgarwch, â'r byrddau cymun dan eu sang o gynnyrch o'r caeau. Felly, gadewch i ni edrych a diolch am un agwedd o fywyd amaethyddol.

Un o'r cwestiynau sydd yn cael ei ofyn i mi yn aml yw: o ble wyt ti'n dod yn wreiddiol?

Y cwestiwn yw: ble mae dy wreiddiau di? Yn Saesneg, y gair fyddai 'origin' ond mae'n llawer gwell 'da fi feddwl amdano fel gwreiddio. Y gwreiddyn – ble wnest ti dyfu i fyny?

Wel, yr ateb yw Boncath, gogledd Sir Benfro, er bod gwreiddiau cryf gennym yn y Ferwig, ger Aberteifi, hefyd.

### Beth yw pwrpas gwreiddyn?

Angor yw gwreiddyn, a dyna sy'n cadw'r planhigyn yn y man a'r lle. Mae ffermwyr yn deall bod angen trin a meithrin y tir i wneud yn siŵr fod y gwreiddyn yn gadarn. Achos, mae synnwyr cyffredin yn dweud, os ydych am gael y planhigyn gorau posib, mae'n angenrheidiol i'r gwreiddyn fod yn gryf.

Heb os nac oni bai, bydd yna dywydd garw yn cyrraedd ac yn ceisio'i godi o'r man lle mae wedi ymgartrefu.

Rydym ni fel Cristnogion yn debyg i'r planhigyn yn y pridd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gwreiddiau'n gryf, achos ry'n ni'n fregus yn stormydd bywyd sydd yn bwrw pawb yn eu tro.

Er mod i ddim yn berson â bysedd gwyrdd – druan o unrhyw flodyn sy'n croesi trothwy ein tŷ ni achos does dim



Llun: Antonio Alcanatara (Unsplash)

gobaith iddo – mae'r *basics* 'da fi am beth sydd ei angen: dŵr, pridd a goleuni.

I sicrhau'r gorau o'r hedyn cyntaf oll, mae'n rhaid i'r ffermwr gryfhau'r gwreiddyn, ei fwydo a'i ddwfrhau er mwyn iddo egino i weld yr haul. Dydyn ni fel pobl ysbrydol ddim tamaid gwahanol. Mae angen ein bwydo â geiriau o'r Ysgrythur a'n dwfrhau gyda bywyd gweddigar. Wrth sicrhau hynny gallwn hefyd fyw yn ysblander goleuni'r Arglwydd. Fel y dywedodd Iesu, 'Myfi yw goleuni'r byd' (Ioan 8:12).

Edrychwn ar y tymor yma o ddiolchgarwch fel cyfle i balu'r pridd, hau'r had a thorchi llewys yn ein hardaloedd. Trwy wneud hyn, gallwn feithrin a chryfhau ein ffydd a ffydd eraill, er mwyn i ni fedru cynaeafu dilynwy'r i achos ein Harglwydd Iesu Grist.

Sian Elin Thomas  
Crymych

### Diolchgarwch am y Cynhaeaf

(allan o *Cymer fy Munudau* gan Elfed ap Nefydd Roberts, trwy ganiatâd Cyhoeddiadau'r Gair)

O Dduw, ein Tad a'n Harglwydd,  
diolchwn i ti am y cyfan a greaist  
ac am y cyfan a gyfrennaist i ni, dy blant.  
Yr wyt wedi llenwi ein bywyd â phrydferthwch a  
daioni  
ac wedi'n hamgylchynu â phethau hardd a  
defnyddiol.

Diolchwn i ti am dy gread:  
am odidowgrwydd y byd o'n cwmpas,  
am ogoniant y brynau a'r dyffrynnoedd,  
yr afonydd a'r moroedd,  
y meysydd a'r blodau;  
yn ysblander a chyfoeth dy greadigaeth  
gwelwn dystiolaeth i ryfeddod dy waith  
yn ein cynnal, ein cadw a'n cyfoethogi.

Diolchwn i ti am dy ofal tadol:  
am gynhaliath a bendithion bywyd beunyddiol,  
am iechyd a nerth,  
am serchiadau a chyfeillgarwch;  
yn holl fendithion bywyd yr wyt ti yn rhoi i ni  
lawenydd,  
ac yn nhreialon bywyd yr wyt yn ein dysgu i bwyo  
arnat ti.

Diolchwn i ti am dy arweiniad:  
am dy ffyddlondeb i ni bob amser,  
am i ti ein harwain a'n nerthu ar lwybrau bywyd,  
am i ti fod yn oleuni i ni ym mhob tywyllwch  
ac yn gynhaliath ym mhob argyfwng;  
mewn hawddfyd ac adfyd buost wrth law bob amser  
i'n harwain a'n hymgeleddu.

Diolchwn i ti am fendithion yr Efengyl:  
am dy gariad anfeidrol yn Iesu Grist,  
am bob mesur o'th wirionedd a ddysgaist i ni,  
am foddion gras a chymdeithas dy bobl,  
am faddeuant pechodau ac am obaith gogoniant;  
rhoddaist i ni'r bendithion dirifedi hyn  
i wneud ein dyddiau yn hardd ac yn llawen.

Helpa ni i ymateb gyda diolchgarwch  
sy'n ei fynegi ei hun, nid mewn geiriau yn unig  
ond mewn ymgysgriad llwyrach i ti ac i waith dy  
deyrnas.

Cyflwynwn i ti y rhai sy'n ei chael hi'n anodd diolch,  
a'r rhai sy'n amau dy ragluniaeth a'th ofal;  
y rhai sydd mewn adfyd a thrallod,  
mewn galar a thristwch,  
mewn afiechyd a llesgedd,  
mewn unigrydd ac anobaith.

Clyw ein hymbiliau ar eu rhan,  
a gwna ninnau bob amser yn fwy diolchgar  
am ein dedwyddwch, ein hiechyd,  
a'th holl roddion di i ni.

Cyflwynwn ein moliant a'n hymbiliau  
yn enw ein Harglwydd a'n Gwaredwr, Iesu Grist.  
Amen.

## Rhifyn Hydref 2021 o'r Traethodydd

Mae rhifyn diweddaraf *Y Traethodydd*, sef rhifyn Hydref 2021, bellach wedi cyrraedd y siopau llyfrau, ond gorau i gyd os ydych wedi archebu'ch copi drwy danysgrifiad. Beth bynnag fo dull y prynu, chewch chi mo'ch siomi gan fod yr arlwy'n gyfoethog a'r cynnwys yn amrywiol.

Mewn ysgrif olau a chynhwysfawr, mae Gruffydd Aled Williams yn dathlu un o drysorau cynhyrsgaeth grefyddol a diwylliannol y genedl, sef Salmau Cân Edmwnd Prys, a hynny bedwar can mlynedd ar ôl eu cyhoeddi gyntaf. Mae'n darlunio'u cefndir yn awydd arweinwyr yr Eglwys Sefydledig i hybu'r ffydd Brotestannaidd, ac yn unol ag egwyddor cael y Beibl yn iaith y bobl, i wneud hynny yn Gymraeg. Sonia am fagwraeth Prys yn Nyffryn Conwy, ei addysg yng Ngholeg Ieuan Sant, Caer-grawnt, lle roedd yn gyfoeswr â'r Esgob William Morgan, ac am yr egwyddorion dyneiddiol Gristionogol a oedd yn sbarduno cenhadaeth y ddau ohonynt. Os hoffech wybod mwy am yr hanes, am y cyfiethiadau cynharaf o'r Salmau, am egwyddorion cyfieithu, trosi a mydryddu Prys ac effaith y Salmau Cân ar Gristnogaeth Cymru ar hyd y canrifoedd, darllenwch yr ysgrif gampus, graff-ddadansoddol hon.

Dadansoddi craff a golau sy'n nodweddu ysgrif arall o natur lenyddol, sef ymdriniaeth Robert Rhys â gwaith y llenor o Ryd-ddu: "Cymorth hawdd ei gael": Cyfeiriadaeth a Rhyngdestunoldeb yng ngwaith T. H. Parry-Williams'. Er inni symud yn yr ysgrif hon o'r ail ganrif


ar bymtheg i'r ugeinfed ganrif, ac o argyhoeddiad ffydd at sseptigiaeth fodern, mae'n syndod gweld pa mor ganolog i weledigaeth y llenor hwn oedd Cymraeg seinber Edmwnd Prys a chyfeiriadaeth gyfoethog Beibl William Morgan. Dyma ysgrif wirioneddol afaelgar, sy'n ein hatgoffa (a bod angen ein hatgoffa) am gyfoeth llên yr ugeinfed ganrif, boed mewn barddoniaeth neu ryddiaith greadigol.

I fyd annisgwyl crefyddau'r Dwyrain yr aiff Llion Wigley yn y gyntaf o ddwy ysgrif o dan y teitl: '*Karma Cymraeg: Bwdhaeth, Hindwâeth a'r Cymry, c. 1920-80*'. Gan ddyfynnu o weithiau llenorion o'r blynyddoedd rhwng y ddau Ryfel Byd hyd at dri chwarter olaf yr 20fed ganrif – D. Miall Edwards, T. Glyn Thomas a Cyril G. Williams o blith y diwinyddion, Kate Bosse-Griffiths, Waldo Williams ac eraill o blith y llenorion – gwelwn fel y cyfareddwyd y Cymry gan ffigurau blaenllaw fel Rabindranath Tagore a Mahatma Gandhi, ac fel y bu i'w syniadaeth gyfrannu at ddelfrydau di-drais y mudiad cenedlaethol. Dyma draethiad hynod ddiddorol, a bydd disgwyl mawr am ail ran yr ymdriniaeth a fydd yn ymddangos yn rhifyn Ionawr 2022.

John Emyr sy'n cynrychioli'r beirdd yn y rhifyn hwn gyda thair cerdd o'i eiddo, a phleser yw cynnwys adolygiad Rob Phillips o gyfrol swmpus a lliwgar D. Ben Rees ar Jim Griffiths, Cymro twymgalon o wleidydd Llafurol ac Ysgrifennydd

Hydref2021

## Y Traethodydd



Dathlu Campwaith Edmwnd Prys, 1621-2021

Gwladol cyntaf Cymru, ynghyd â gwerthfawrogiad Elwyn Richards o'r gyfrol deyrnged i'w gyd-addysgydd gweinidogaethol, y diweddar Euros Wyn Jones.

Dyma rifyn cyfoethog arall o gylchgrawn hynaf Cymru a 'Chylchgrawn y Diwylliant Cymraeg'. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams ([alice@ebcpcw.cymru](mailto:alice@ebcpcw.cymru)), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

## Gwasanaeth comisiynu blaenoriaid

Nos Fercher, 29 Medi 2021, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o dan nawdd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro o Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Comisiynodd y Llywydd, Mr Martin Lewis (a welir ynghanol y llun), bedwar blaenor, sef Mrs Cynthia Edwards, Mr David Jones, Mrs Sandra Morris Jones a Mrs Neli Jones, i weinyddu'r sacramentau yn ein plith.

Roedd y pedwar wedi dilyn cwrs hyfforddiant a drefnwyd gan Mrs Delyth Oswy Shaw, cydlynnydd hyfforddiant



EBC, ac a arweiniwyd gan Parch Ddr Watcyn James. Ef hefyd a gafodd y cyfle i arwain yr Henaduriaeth i ddathlu Swper yr Arglwydd yn ystod yr oedfa. Llawnnydd i bawb oedd yn bresennol,

naill ai yn yr eisteddiad yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, neu'n rhithiol drwy Zoom, oedd cael rhannu yn y comisiynu. Dymunwn nawdd y nef ar eu harweiniad yn eu broydd.

# Cyflwyno dwy Fedal Gee yn Nyffryn Teifi

Gan na fu'n bosibl trefnu'r cyfarfodydd arferol yn y de a'r gogledd i gyflwyno medalau Gee eleni, penderfynwyd eu cyflwyno mewn digwyddiadau llai, a hynny'n lleol.

Dau a enwebwyd ar gyfer derbyn medalau eleni oedd Dewi Davies o eglwys Aberduar, Llanybydder, a Janet Evans o'r Noddfa, Llanbedr Pont Steffan. Felly, trefnwyd noson yn festri Aberduar er mwyn cyflwyno'r medalau iddyn nhw, a braf oedd gweld cynulleidfa luosog wedi dod ynghyd – a hynny o 5 i 95 oed.

Yn dilyn gair o groeso a defosiwn gan y gweinidog, y Parch D Densil Morgan, cafwyd gair o werthfawrogiad am wasanaeth Dewi a Janet gan y Parch Eirian Wyn Lewis, un o blant Aberduar, cyn cyflwyno'r awenau i Aled Davies o Gyngor yr Ysgolion Sul i gyflwyno'r medalau. Tystiodd Aled i'w ddyled fawr i eglwys Aberduar – yntau hefyd wedi ei fagu yn yr eglwys, a'i Yncl Dewi wedi bod yn un o'i athrawon. Wedi cyflwyno'r medalau, cafwyd gair o ddiolch gan Dewi a Janet, a ddiolchodd am bawb y buont yn cydweithio â nhw yn yr ysgol Sul dros gyfnod o 50 mlynedd.

Yna cafwyd cyflwyniad hyfryd gan blant yr ysgol Sul, oedd wedi creu sgetts fer yn sôn am hanes Dewi a Janet a'u medalau, cyn i Hanelia Court ddod ymlaen i ddarllen penillion o gyfarchion iddynt.

Roedd y chwirydd wedi bod yn brysor hefyd, a cafwyd gwledd wrth y byrddau yn dilyn y cyfarfod.

Wrth gyflwyno'r cais dros Janet Evans, meddai'r Parch Densil Morgan, ei gweinidog:

Bu Janet yn ddiwyd ers deugain mlynedd a mwy yn arwain yr ysgol Sul yn Noddfa, Llambod. Symudodd yma yng nghanol y 1970au pan benodwyd Derek, ei gŵr, yn rheolwr Banc y Midland, ac wrth i'w plant fynychu'r ysgol Sul ymroes i'w gweithgareddau. Yn ogystal â thrwytho cenedlaethau o blant mewn hanesion



O'r chwith i'r dde:  
Aled Davies, Janet  
Evans, Dewi Davies  
a Densil Morgan

o'r Beibl, mae'n trefnu oedfaon arbennig adeg y Nadolig, y Pasg, Gŵyl Ddewi a Sul y Mamau, a thrwy ei llafur hi cafodd ysgol Sul Noddfa lwyddiant arbennig yng ngŵyl mawl yr enwad, sef Gŵyl y Gair a'r Gân. Mae'n cydweithio'n hapus â mamau'r eglwys, ac mae'r plant yn meddwl y byd ohoni. Mae'r oedfaon y mae Janet yn eu trefnu'n rhan bwysig o genhadaeth a thystiolaeth eglwys Noddfa i'r dref ac yn y gymdogaeth. Ar sail ei ffyddlondeb eithriadol i'r ysgol Sul ar hyd ei hoes, ac yn arbennig ei llafur diflino yn Ysgol Sul Noddfa, teimlwn ei bod hi'n fwy na theilwng i dderbyn anrhydedd y Fedal Gee.

Yr un un modd, cyflwynodd Dewi Davies gan ddweud:

Un o blant Aberduar yw Dewi: fe'i magwyd yn yr eglwys, mynychodd yr ysgol Sul o'i febyd ac fe'i bedyddiwyd yma. Mesur ymddiriedaeth yr eglwys ynddo oedd ei godi'n ddiagon yn 25 oed. Yn ogystal â'i sêl dros weithgareddau eraill yr achos, gyda'r ysgol Sul y bu ei ymlyniad pennaf ar hyd ei oes. Bu'n athro ar amrywiaeth o ddosbarthiadau ac ef, hyd heddiw, sy'n trefnu Oedfa Nadolig y Bobl Ifainc ac Oedfa'r Pasg. Cafodd ddylanwad arhosol ar genedlaethau o ieuencid, yn cynnwys y Parchedigion Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu; Owain Llŷr Evans, Minny Street, Caerdydd; ac Aled Davies, Chwilog.

Ar sail ei gyfraniad diwyd, dyfeisgar ac anhunanol i achos yr ieuencid ar hyd ei oes, dymuniad ei gyd-aelodau a'i lu gyfeillion ym mhentref Llanybydder a'r cylch yw ei gynnig fel un cwbl deilwng i dderbyn anrhydedd y Fedal Gee.

Diolch am wasanaeth diflino'r ddau dros gyfnod maith iawn.

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o *Cenn@d*, cawn adroddiad am gyfarfod arall a gynhaliwyd yn y Capel Newydd, Llanddarog.

## I gyfarch Janet a Dewi ar ennill Medal Gee

Mae'n noson dra arbennig  
I'n henwad annwyl ni,  
Sef Dewi a hi, Janet,  
Yn ennill medal Gee.  
Fel cyd-aelodau iddynt  
Sydd yma ger eu bron,  
Mae'n bleser eu llongyfarch  
Ar y noson sbesial hon.

Bu'r ysgol Sul yn ffodus  
Ar hyd blynyddoedd maith  
O gael arweiniad Dewi  
I gario mlaen â'r gwaith.  
Roedd pasiant y Nadolig  
A'r gwasanaethau i gyd  
Yn werth eu gweld bob amser,  
A hynny'n wir o hyd.

Mi oedd bob amser wrthi  
A'i gamra ym mhob man,  
Ac yn recordio'r cyfan  
Wrth iddynt wneud eu rhan.  
Mi ddaeth yn ddiagon ifanc  
Yn bump ar hugain oed,  
A nawr mae mor frwdfrydig  
Â fuodd eferioed.

A Janet hithau hefyd  
Sy'n cael y plant ynghyd  
Bob wythnos ers blynyddoedd  
A'u dysgu hwy i gyd.  
Mae Noddfa yn dra lwcus  
O'i gwaith arbennig hi  
A'r ysgol Sul bob amser  
Yn llawn o hwyl a sbri.

Mae'n paratoi'r Diolchgarwch  
A'r Nadolig yn ei dro,  
A dathlu'r Pasg bob blwyddyn  
'Da'r ieuencid yn y fro.  
Mae wedi bod yn ffyddlon  
I'r Urdd ar hyd ei hoes  
A'r plant i gyd yn gwranddo,  
Heb feddwl tynnu'n groes.

Nid pawb sy'n dathlu'r dwbwl,  
Ond dyna a wnawn ni,  
A llongyfarchiadau gwresog  
I'r ddau ohonoch chi.  
Gobeithio y cewch iechyd  
I gario mlaen â'r gwaith  
I ddysgu plant yr ardal  
Yn wir am gyfnod maith.



Janet Evans a Dewi Davies yng  
nghwmni'r plant a gymerodd ran  
yn y gwasanaeth cyflwyno



# O Gefn Gwlad



## Euogrwydd

Rhaid imi gyfadde nad yw euogrwydd yn rhywbeth yr wyf yn meddwl amdano'n ddigon aml efallai, ond gyrrodd eitem ar y newyddion ac ymweliad â Thal-y-sarn fy meddwl i'r cyfeiriad hwnnw'n ddiweddar.

Roedd yr eitem newyddion yn cyfeirio at wersyll milwrol Hohne yn Lüneburg Heath yng ngogledd yr Almaen, ac fe'm hatgoffodd imi dreulio mis yno amser maith yn ôl, pan euthum drosodd i'r Almaen yn un o filwyr ei mawrhydi!

O fynd allan o'r gwersyll hwnnw a throi i'r chwith fe ddeuech ymhen milltir neu lai i dref fechan Bergen, neu Bergen-Belsen, a rhoi iddi ei henw llawn. Ydi'r enw'n canu cloch? Siŵr o fod, ac o droi i'r dde drwy'r goedwig fe ddeuech yn fuan iawn i safle'r gwersyll erchyll hwnnw, Belsen, nad yw ei fodolaeth bellach yn ddim ond digwyddiad mewn hanes. Do, bûm yno gyda hanner dwsin o rai eraill ar bnawn Sul iasoer ynghanol gaeaf, pan oedd pobman yn drwch o eira ac yn hollol dawel. Efallai ei bod yn rhy oer i'r un aderyn ganu, ond hwyrach yn wir fod rheswm arall am hynny. Fe welsom y gofgolofn drawiadol i gofio'r rhai ddiodeffodd yn y lle arswydus hwnnw (gan gynnwys Anne Frank, fu farw yno) a'r beddau anferthol gydag arwyddion megis '5,000 o gyrff wedi eu claddu yma' arnynt.

Aethom yno yn griw swnllyd, llawen; daethom oddi yno wedi ein sobreiddio a neb yn yngan gair. Ond hyn oeddwn i eisiau ei nodi. Roedd dinasyddion Bergen yn gwadu y gwyddent unrhyw beth am y gwersyll hwnnw, er iddyn nhw fod yn dystion i drenau di-ri yn dod i'r orsaf yno a channoedd o ddynion a merched a phlant yn cael eu gorymdeithio i fyny'r trac i ganol y goedwig, byth i ddychwelyd.



Na, doedden nhw ddim yn fodlon cyfadde bod dim o'i le ac, wrth gwrs, doedd yr un ohonyn nhw'n uniongyrchol gyfrifol am yr hyn ddigwyddodd. Ac eto, wrth ganiatáu i ddemoniaid Natsiaidd yr Almaen lywodraethu ar y wlad, yr oedden nhw hefyd yn euog, oedden nhw ddim? Ond yn amharod i gyfadde hynny.

Cofio am un o gerddi'r bardd Gwilym R. Jones, 'Yr Oeddym Ni Yno' wnes i wrth ymweld â Thal-y-sarn a chwilio am ei gartref yn y pentre hwnnw. Mae'r gerdd yn sôn am y Croeshoeliad, digwyddiad arall mewn hanes nad oedd neb o'r dinasyddion lleol, pobl Jerwsalem yn yr achos hwn, yn gyfrifol amdano, ac yn sicr nid y ni, sy ar y ddaear hon ddwy fil o flynyddoedd wedi'r ddrama fawr.

Ond nid felly y gwelodd Gwilym R. bethe. Nid yw'n sôn am euogrwydd dinasyddion y ddinas sanctaidd, ond mae'n cyfeirio at ein euogrwydd ni, y ni sy wedi ein gwahanu gan ugain canrif o amser ers y digwyddiad hwnnw. Sut y gallai Gwilym R. ddweud:

O! yr oeddym ninnau yno,  
Ond 'rydym rywsut wedi hen  
anghofio?

Mae'r ateb mewn dwy linell arall yn y gerdd:

Am na chodasom fys i arbed y diniwed,  
Nyni sy'n euog o'r Fradwriaeth Fawr.

Yr ydym oll yn elwa o'r cyfoeth ddaw inni drwy werthu arfau i'r Dwyrain Canol, y rhan honno o'r byd lle mae gwaed y diniwed ar balmentydd a muriau. Ac ni chodwn ein llef i brotestio yn erbyn y farchnad ddielflig hon, sydd â throsiant o dros 35 biliwn o bunnoedd yn flynyddol, o'i gymharu â'r 12 biliwn a werir ar gymorth rhyngwladol. Llai erbyn hyn. Wnaethoch chi brotestio wrth y lywodraeth am y lleihau? Naddo?

Peidiwn â chodi bys at drigolion Bergen-Belsen, 'den ni damaid gwell ein hunain, yden ni? Onid y dyfarniad arnom oll yw – Euog?

*Elfyn Pritchard  
Sarnau*

S4C

Sul, 24 Hydref, am 8.00yh

Dathlu'r 60 – mewn rhaglen arbennig, bydd Nia ar daith yn hel atgofion ac yn codi gwên yng nghwmni wynebau cyfarwydd ar drywydd chwe degawd o straeon ac atgofion.

Mae copi o gylchlythyr mis Hydref i'w gael o ddilyn y ddolen hon:

<https://spark.adobe.com/page/enhrXJs3QFjsa/>

BBC | radio  
cymru

Sul, 24 Hydref – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp

Elen Ifan yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd Sir Conwy dros y blynyddoedd

Sul, 24 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal y Parch Ddr Andras Iago

# O'r Swyddfa

## Lansio Polisi Amgylcheddol blaengar

Yn dilyn cyfarfodydd y Gymanfa Gyffredinol, daeth yn amser bellach i geisio sylweddoli rhai o'r penderfyniadau a wnaed yno. Ymhlith yr amrywiaeth eleni gwelwyd lansio Cynllun Golud, lansio Apêl Cymorth Cristnogol 2022, ac yn dilyn ymgynghori a mewnbwn gan unigolion, Henaduriaethau a Sasiwn, fe gymeradwywyd ein Polisi Amgylcheddol.

Mae crynodeb o'r Polisi Amgylcheddol a rhai o ddiwyddiadau a phenderfyniadau'r Gymanfa i'w gweld yn [Llais y Gymanfa](#).

Heb os, mae'r Polisi Amgylcheddol hwn yn bolisi fydd yn cael effaith sylweddol, gobeithio, ar fywyd y Cyfundeb, ac yn gadael ei ôl ar fywyd eglwysi ac ar fywyd pob un ohonom fel unigolion.

Rydym ar drothwy COP26, y gynhadledd ryngwladol yn Glasgow fydd yn ceisio ymatebi'r angen am newidiadau creiddiol i'r ffordd rydym yn byw ein bywydau, y ffordd rydym yn gweithio, yn hamddena ac, i bwrpas yr enwad, amgylchiadau ein haddoliad a'n gweithredu o ddydd i ddydd.

Mi fydd ein Llywydd yn ein cynrychioli mewn oedfa arbennig yn Glasgow ar 7 Tachwedd fel mynegiant o weddi a gwaith eglwysi yn yr ymdrech i ddwyn perswâd, ond hefyd i fyw ein hunain mewn ffordd gyfrifol yn amgylcheddol. Fel Eglwys, rydym yn ymrwymo i ofalu am greadigaeth Duw, drwy fuddsoddi'n fwriadol i leihau ein ôl troed carbon, drwy gynyddu ailgylchu, drwy leihau gwastraff, a gwella effeithiolrwydd ein defnydd o adnoddau naturiol ein byd.

Mae ein polisi'n ymestynol, gydag agweddau ohono fydd yn hawdd iawn i'w gweithredu. Ond mi fydd yna agweddau eraill fydd yn heriol, yn eiofodi i'w wneud penderfyniadau er lles yr amgylchedd, er lles y byd greodd Duw, y Duw sy'n parhau i'n galw i fod yn stiwardiaid cyfrifol o'r greadigaeth. Bydd y penderfyniadau anodd yma hefyd yn cael eu gwneud er lles pobl – y bobl hynny sydd eisoes yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan newid



Y Parch Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, a'r Parch Evan Morgan, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, EBC

hinsawdd. Byddwn yn cael cip pellach ar hynny wrth ymdaflu i Apêl Cymorth Cristnogol y flwyddyn nesaf, apêl fydd yn canolbwyntio ar effeithiau dwys newid hinsawdd yn Kenya a Haiti.

Yn benodol, mae'r polisi yn datgan y bydd ein heglwysi'n ymrwymo i ddefnyddio deunydd masnach deg a/neu ddeunydd lleol yn ein heglwysi a'n cartrefi, osgoi deunydd plastig a ddefnyddir unwaith yn unig, a defnyddio papur sy'n dod o ffynonellau gwyrdd. Rydym yn ymrwymo i ddefnyddio cyflenwyr trydan sy'n buddsoddi mewn ynni gwyrdd, ac archwilio'r posibilrwydd o gefnogi mentrau cynhyrchu ynni gwyrdd yn lleol. Byddwn yn annog ein heglwysi i gydweithio â grwpiau trawsnewid neu grwpiau cynaliadwyedd lleol, neu i fynd ati i sefydlu grwpiau tebyg a derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ar faterion megis cyfiawnder hinsawdd a gofal amgylcheddol.

Bydd hyn yn cyd-fynd â'n hawydd i symud mor fuan â phosibl oddi wrth danwydd ffosil yn ein capeli, tai capel ac eiddo arall rydym yn berchen arno. O ran ein haddoldai, mi fydd yna bwyslais newydd ar gydaddoli'n lleol, ystyried defnyddio adeiladau mwy eco-gyfeillgar, a hyd yn oed newid amser oedfaon mewn rhai mannau os yw hynny'n hwyluso caniatáu i bobl gyrraedd drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Bydd holl gyfarfodydd ein llysoedd yn cael eu cynnal mewn ffordd fydd yn caniatáu i bobl eu mynychu'n rhithiol, a bydd anogaeth glir a chefnogaeth i'r rhai sy'n mynychu wyneb yn wyneb wneud hynny drwy rannu ceir, neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Byddwn yn

addasu ein rheolau mewn perthynas â'r defnydd o gyfalaf i gefnogi eglwysi sy'n symud oddi wrth y defnydd o danwydd ffosil, a sicrhau fod y polisi amgylcheddol yn ffactor amlwg mewn unrhyw gais i ddefnyddio arian strategaeth ar adeiladau.

Yr un pryd, rydym wedi cytuno i beidio â buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn parhau i dynnu tanwydd ffosil o'r ddaear, yn ennill dros 10% o'u hincwm drwy ymwneud â thanwydd ffosil, neu sydd heb wneud unrhyw ymdrech ymarferol i sicrhau eu bod yn niwtral o ran eu defnydd o garbon cyn 2035. Yn hyn, rydym yn ymuno â phartneriaid eciwmenaidd megis Eglwys yr Alban, Eglwys Bresbyteriaid Iwerddon, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr, ymhlith nifer sydd wedi ymrwymo i wneud yr un peth.

Byddwn yn galluogi'r polisi drwy sicrhau rhwydwaith o bersonau cyswllt yn yr Henaduriaethau, yn ogystal â hyrwyddwyr yn genedlaethol, fydd yn sicrhau'r wybodaeth, y gefnogaeth a'r anogaeth i'n heglwysi. Bydd copi o'r polisi yn cyrraedd eich eglwys gyda hyn, a gobeithio y byddwch yn ymroi i'w weithredu'n lleol.

Mae'n siŵr y bydd golygyddion *Cenn@d*, fel ninnau, wrth ein bodd yn clywed hanesion am yr hyn sydd wedi digwydd yn eich sefyllfa leol yn barod, a'r hyn fydd yn digwydd, wrth ichi gofleidio'r cyfrifoldebau sydd arnom yn y maes hwn fel pobl yr Arglwydd.

*Meirion Morris  
Ysgrifennydd Cyffredinol  
Eglwys Bresbyteriaid Cymru*

## Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwys yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.

### Rhif 6 – Undeb yr Ysbryd

Yr Ysbryd Glân sy'n sicrhau undeb yr Eglwys. Ffordd arall yw hyn o ddweud mai cynnyrch gweithgarwch achubol Duw ydyw.

Trown i ddechrau at weddi'r Arglwydd Iesu yn Ioan 17. Mae'r Arglwydd yn ei gyflwyno'i hun yn aberth dros bechodau'r byd. Yn yr aberth hwn gogoneddir y Mab, fel y mae'r Mab eisoes wedi gogoneddu'r Tad. Gorfennwyd y gwaith. Galwyd cwmni o ddynion allan o'r byd a dysgwyd y gwirionedd iddynt. Mwy na hynny, y mae'r dynion wedi credu yn Iesu Grist. Eisoes, felly, y maent wedi'u huno yn y gwirionedd ac wedi'u huno hefyd yn eu neilltuaeth oddi wrth y byd. Hyd yma gwarchodwyd hwy gan Iesu Grist ei hun. Ond yn awr y mae Ef yn eu gadael ac mae'n eiriol at y Tad drostynt. "Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun" (adn 19). Ac ystyr sancteiddio yma yw "neilltuo i'w aberthu i Dduw". Gyda'r geiriau hyn y mae Iesu Grist yn offrymu ei einioes dros bechodau'r byd. Nid rhoi ei hun fel esiampl o hunanaberth ond cynnig ei fywyd glân yn aberth. Ac o'r aberth hwn y tardd eu sancteiddrwydd hwy – "fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio mewn gwirionedd" (nid "yn y gwirionedd"). Maent yn awr ar fin cael eu huno yn y sancteiddrwydd sy'n tarddu o aberth Crist.

Y mae'r Iesu'n awr yn ehangu ei eiriolaeth i gofleiddio'r sawl a fydd yn credu'r Efengyl a bregethir gan y disgyblion: "Fel y byddont": "Fel y byddont oll yn un: megis yr wyt ti, y Tad ynof fi, a minnau ynot ti: fel y byddont hwythau ynom ni: fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonodd i" (adn 21). Ac fel y gwelwom eisoes, dyma'n union yr uno sy'n digwydd dan eneniad yr Ysbryd Glân. Bydd y Gair yn cael ei bregethu, dynion yn cael hatgenhedlu, eu galw, eu cyfiawnhau, eu sancteiddio. Mewn gair, bydd dynion yn cael eu huno â Christ. Trwy'r Ysbryd Glân, y mae Crist ynddynt hwy a hwythau yng Nghrist. Ac felly trwy'r Efengyl a dylanwadau'r Ysbryd Glân dygir dynion i'r undeb dwyfol sy'n canoli ar Iesu Grist – "Myfi ynddynt hwy a thithau ynof fi" (adn 23).

Felly, y mae Iesu yn y weddi hon yn cyfeirio at saith rhwymyn yr uno. Mae'r disgyblion yn eu cred yn Iesu; yn un yn eu hymneilltuaeth o'r byd; yn un fel gwrthrychau'r Aberth mawr; yn un mewn sancteiddrwydd; yn un yng ngair y gwirionedd; yn un yng Nghrist ac yn un mewn cenhadaeth. Dyma'r undod gwaelodol na all dyn fod yn Gristion heb fod ynddo.

Pan drow'n i Effesiaid 4 gwelwn yr undeb hwn mewn goleuni dipyn yn wahanol. Mae dilynwyr Iesu'n un "corff". Ond nid un "gorfforaeth", neu un "sefydliad" a olygir. Yn gyntaf, y mae Cristnogion dan lywodraeth Crist, yr Hwn a roddwyd "yn ben uwch law pob peth i'r eglwys. Yr hon yw ei gorff ef" (Effesiaid 1:22-3). Ac un Ysbryd sydd ganddynt oll – yr Ysbryd sy'n galw dynion at Grist: "Megis y'ch galwyd oll yn un gobaith eich galwedigaeth" (adn 4). Mae'n dilyn wedyn mai "un Arglwydd" sydd. Yna daw "un ffydd" ac "un bedydd". A chrynoir yr undeb llawn hwn yn Nuw – "Un Duw, a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll." Dyma undeb seithblyg eto: un corff, un Ysbryd, un alwad, un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw. Ac yma, fel yng ngweddi Iesu Grist yn Ioan 17, yn Nuw a'i weithgaredd y mae cyfrinach yr undeb.

Yn 1 Corinthiaid 12:3-27, canolir y sylw ar gynulleidfa unigol. Ond y mae'r un peth yn wir am hon ag am yr eglwys gyfan yn Effesiaid 4. Ysbryd Duw sy'n sicrhau'r undeb ac ar yr un pryd yn creu amrywiaeth. Cymhwysir delwedd y "corff" yn awr at y gynulleidfa. Y mae mewn cynulleidfa amryw ddoniau, yn union fel y mae amryw aelodau mewn corff. Ond trwy "un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corff" (adn 13). Ac wrth ddarparu o ddoniau, sicrhaudd yr Ysbryd Glân ddibyniaeth pawb ar ei gilydd. O ganlyniad y penna'foll o'r holl ddoniau yw cariad (1 Corinthiaid 13). Yn y gymdeithas gydweithredol a gwasanaethgar hon, mae lle i Iddewon a Groegwyr, caethweision a dinasyddion rhydd. Mae i bawb, diolch i'r Ysbryd Glân, ei briod wasanaeth a'i briod anrhydedd. Daw'n eglur iawn wrth astudio'r darn hwn nad yw undod Eglwys Iesu Grist ddim yn golygu unffurfiaeth. Yn wir, o graffu ar y gwahanol eglwysy y sonnir amdanynt yn y Testament Newydd, gwelir eu bod yn gyforiog o amrywiaeth a'r amrywiaeth wedi'i phatrymu'n hyfryd yn undod yr Ysbryd.

Dengys hyn pa mor hanfodol yw undeb Cristnogion â'i gilydd ac â Christ. Ar yr un pryd dengys gymaint o'r siarad a'r ysgrifennu cyfoes am undeb eglwysig sy'n anwybyddu tystiolaeth amlwg yr Ysgrifur am natur yr undeb hwn. I'r graddau y mae gweithgareddau eciwmenaidd yn ymeginio i adeiladu corfforaeth unedig, ganolog, unffurf, y maent yn ceisio creu anghenfil nad oes rithyn o gyfiawnhad drosto ar dudalennau'r Testament Newydd. Ac i'r graddau y mae arweinwyr Cristnogol yn

ceisio cyrraedd y nod hwn trwy wleidyddia cyfrwys a chynlluniau cymrodeddus, maent yn gorseddu clyfrwch dyn yn lle anrhydedd Duw a gwirionedd yr Efengyl. Undod yng Nghrist trwy'r Ysbryd Glân, undod o greadigaeth Duw trwy wirionedd ei Air, yw'r undod a ddarlunnir inni gan yr Arglwydd Iesu a'i apostolion.

Ar y llaw arall, mae'n gwbl amlwg na fwriadodd yr Arglwydd Iesu i'w bobl fod wedi'u rhannu'n gorfforaethau enwadol yn byw mewn cynnen â'i gilydd. Nid oes sôn am enwadau chwaith ar dudalennau'r Testament Newydd – nid hyd yn oed un enwad mawr. Gan hynny, yn y mater hwn, yn anad yr un mater yn y blynyddoedd hyn, y mae angen i Gristnogion o bob rhyw ddisgwyl yn eiddgar ac yn ostyngedig wrth yr Ysbryd sy'n tywys i bob gwirionedd.

### Darlleniadau:

Ioan 17; 1 Corinthiaid 12:3-27; Effesiaid 4:1-16.

### Llyfrau:

Mae'r fath doreth o lyfrau, pamffledi, erthyglau a datganiadau'n trafod undod yr Eglwys fel na ellir gwneud mwy nag awgrymu sut orau i ddechrau astudio'r maes. Am hanes y mudiad eciwmenaidd, efallai mai llyfr Norman Goodall, *The Ecumenical Movement* (1961), yw'r hwylusaf. I'r Cymro mae diddordeb o hyd yn syniadau'r gorffennol ar y pwnc, fel Henry Rees, *Pregethau III*, pregeth v, a'r anerchiad, "Undeb Crefyddol"; John Jones (Talsarn), *Pregethau* (1869), "Undeb a Christ", 533-41; Thomas Rees, *Cenadwri'r Eglwys a Phroblemau'r Dydd*, 232-45. Am lyfrau cyfoes gw. (gol.) A. Ff. Williams, *Ffyrdd a Ffydd* (1945); Esgob Bangor, *Gwaith yr Eglwys* (1959), 42-51; *Paratoi'r Ffordd* (1960); T. Lloyd Evans, *Pris ein Rhyddid* (1962), pen 7.

Am drafodaethau o wahanol safbwyntiau, T. F. Torrance, *Theology in Reconstruction* (1965), pen. 11 a 13; Brunner, *The Misunderstanding of the Church* (1952); E. L. Mascall, *Christ, the Christian and the Church* (1946) – o safbwynt "Ucheleglwgysig"; P. T. Forsyth, *The Church and the Sacraments* (dros Ffederaliaeth), 1917; Hans Kung, *The Council and Reunion* (safbwynt un Pabydd); J. A. O'Brien (gol.), *The Steps to Christian Unity* (Fontana – crynoded o'r holl safbwyntiau). Am y safbwynt "efengylaidd" gw. J. M. Kik, *Ecumenism and the Evangelical* (1958); David Hedegard, *Ecumenism and the Bible* (1964); Alan Cole, *The Body of Christ* (1964). Am hanes eciwmeniaeth Brotestannaidd, gw. J. T. McNeill, *Unitive Protestantism* (1964).

Am Ioan 17, gw. E. Hoskyns, *The Fourth Gospel, II* (1950).

## Ailagor y drysau yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala

Ar ôl blwyddyn a hanner rhyfedd iawn, rydym yn falch o ddweud bod Canolfan Coleg y Bala yn swyddogol ar agor. Rydym wedi cynnal ac adeiladu perthynas â'r bobl ifanc dros Zoom yn ystod yr amser heriol yma ac wedi bod yn cefnogi eglwysi ac ysgolion yn eu darpariaeth rithiol i blant a phobl ifanc.



Canolfan Gristnogol  
i Blant ac Ieuenctid

Er hynny, does dim byd gwell na dod at ein gilydd wyneb yn wyneb i ailgysylltu, dal i fyny, darllen Gair Duw ac annog ein gilydd. Mae gennym nifer o gyrsiau wedi eu trefnu:

- Catch-up (15–17 Hydref) ar gyfer ieuenctid hŷn;
- Clwb Hydref (26–7 Hydref) i blant oed cynradd;
- Cwrs Ieuenctid ar gyfer rhai oedran ysgol uwchradd (29–31 Hydref).

Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch â Choleg y Bala neu os hoffech ddod â chriw o'ch eglwys yma am benwythnos, bydd croeso cynnes yn eich aros. Cofiwch gysylltu i weld beth allwn ni ei drefnu.

Siân ac Owain Edwards – Cyd-reolwyr,  
Canolfan Hyfforddi Coleg y Bala,  
Y Bala, Gwynedd, LL237YB  
[Colegybala@ebcpcw.cymru](mailto:Colegybala@ebcpcw.cymru)



## Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parch Eifion G Jones, Dinbych, yn ei gartref ar 9 Hydref. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eilir, Mirain a Llŷr, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

*Meirion Morris,  
Eglwys Bresbyteraidd Cymru*


Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Beti Davies, gwraig y diweddar Barchedig Islwyn Davies, yng nghartref preswyl Glyn Nest, Castellnewydd Emllyn, ar 11 Hydref 2021. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r meibion, Hywel ac Iwan, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

*Judith Morris  
Undeb Bedyddwyr Cymru*

## Iesu yw'r Goleuni? Adnodd newydd ar gyfer tymor Calan Gaeaf

Dyma lyfr lliwgar newydd i'w gyflwyno i blant fel rhodd yn nhyrnor Calan Gaeaf. Mae *Iesu yw'r Goleuni?* yn ymateb, drwy gyfrwng barddoniaeth, i ddisgrifiad Iesu ohono'i hun fel Goleuni'r Byd yn Efengyl Ioan.

Addaswyd y gerdd i'r Gymraeg gan Delyth Wyn Davies, ac mae'r llyfrynau lliwgar ar gael am £10 am becyn o 10. Mae'r llyfrynau hyn yn ffordd ddelfrydol o rannu goleuni Iesu â'r plant yn eich cymuned, yn enwedig adeg Calan Gaeaf, sy'n gysylltiedig â'r tywyllwch. Byddai'n wych eu defnyddio mewn Parti Goleuni, ochr yn ochr â pheycyn adnoddau sydd i'w weld ar wefan [www.scriptureunion.org.uk](http://www.scriptureunion.org.uk)



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Daeth i ben deithio byd ...

### Gwedd

Arglwydd Iesu, daethost at dy ddisgyblion gynt yn 'newydd wedd' dy atgyfodiad. Tyrd drachefn atom ni, Arglwydd, fel y daethost at deithwyr ofnus Emaus. Caniatâ i ninnau'r fraint drachefn o'th adnabod yn ein plith heddiw. Tyrd atom, drwy dy Ysbryd Glân, i ongeddu'r Tad. Amen.

**Darllen Salm 34:1-8, 19-22**

**Emyn 288 'O am dafodau fil'**

### Cyflwyniad

Mae Marc wedi caniatáu i ni fel ei ddarllenwyr ddilyn teithiau Iesu i Syroffenia, ac ardaloedd Tyrus a Sidon; yna, yn ôl i'r Decapolis cyn iddo ein tywys i Gesarea Philipi, lle synnwyd Pedr a'r disgyblion gan ryfeddod eu darganfyddiad: 'Ti yw'r Meseia.' O hynny allan roedd Iesu wedi rhybuddio'i ddisgyblion deirgwaith mai taith tuag at ddiodeffaint a phoen, at angau ac atgyfodiad oedd ei rawd bellach. A chawsant eu gwahodd, fel pob un arall oedd am ei ganlyn, i'w efelychu drwy godi'r groes heb gywilyddio.

**Darllen Marc 10:46-52**

### Myfyrdod

Bellach, taith diwrnod sydd ar ôl rhwng Jericho a Jerwsalem – tua 14 milltir.\*\* Dyma ddiwedd teithiau a gweinidogaeth gyhoeddus Iesu.

Cam nesaf Efengyl Marc yw'r daith ar gefn ebol asyn i mewn i Jerwsalem, a 'Hosanna' y dorf yn adleisio o'r tai cyfagos. O fewn yr wythnos, byddai buddugoliaeth dyfodiad teyrnas nefoedd wedi ei chwblhau, ac angau a'r bedd wedi eu concro.

Roedd hyn oll eto i'w wynebu.

Digwydd y cyfarfyddiad grasol hwn rhwng Iesu a Bartimeus yn Jericho. Ond y mae i'r hanes fwy o arwyddocâd na stori syml am iacháu rhyw gardodyn dinod a dall. Fel Pedr gynt, caiff Bartimeus ddall adnabod Iesu fel mab Dafydd, fel Meseia Duw.

Roedd 'Mab Dafydd' wedi dod i Jericho. Ac roedd 'Mab Dafydd' ar fin gorymdeithio i mewn i fan llywodraeth y Brenin Dafydd yn Jerwsalem.

Fe wŷr unrhyw un sydd wedi darllen yr efengylau fod pryder am ddylanwad a phoblogrwydd Iesu wedi ennyn gwrthwynebiad a hyd yn oed awydd i'w ddifa ymhlith arweinwyr y sefydliad. Gwell

ganddynt fyddai marwolaeth un person na difodiant cenedl.

Gwyddent fod rhai am wneud Iesu yn frenin, a bod rhai'n tybio'i fod rywsut yn cyflawni'r proffwydoliaethau oedd yn llawn o obaith. Credent y deuai'n frenin a fyddai'n iacháu'r dall, y byddar a'r cloff (Eseia 32).

Mae'n siŵr fod y cythrwfl ymhlith y dyrfa oedd yn dilyn Iesu hefyd yn cynyddu eu pryder.

Clywodd Bartimeus fod 'Iesu o Nasareth' ar daith. Mae'n bur debyg mai wrth yr enw hwnnw yr oedd llawer yn ei adnabod. Ond yr oedd Bartimeus ddall wedi adnabod mwy na phroffwyd o Galilea.

Dechreuodd weiddi: 'Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf' (adn 47, 48). Roedd y dyrfa am ei atal, ac roedd disgyblion Iesu ei hun o bosib wedi ymuno â'r dyrfa i geisio tawelu Bartimeus a'i gadw oddi wrtho. Fe gofiwn fod y disgyblion wedi ceisio atal plant bychain rhag nesu ato.

Efallai y bydd y 'byd' sy'n elyniaethus i Iesu am atal ei fawl, ac ar brydiau fe all disgyblion Iesu fod yn rhwystr rhag i bobl nesáu ato. Ond ni ellir atal yr un sydd wedi adnabod Iesu rhag ei ganmol ddydd na nos, rhag dweud wrth bob creadur am rinwedd gwaed y groes.

Nid teitl i'w gymryd yn ysgafn oedd y floedd 'Mab Dafydd'. Teitl ydoedd a gâi ei ddefnyddio'n achlysurol yn lle 'Meseia'. Ystyr Meseia yw 'eneiniog'.

Roedd disgwyliadau amrywiol wedi cael eu cyplysu â dyfodiad y Meseia. Byddai'r Meseia, yn ôl y disgwyliadau hynny, yn olrhain ei dras at y Brenin Dafydd. Pan ddeuai, byddai gelynion y genedl yn cael eu goresgyn ac addoliad y deml yn cael ei phuro.

Does ryfedd fod yr arweinwyr wedi cynhyrfu wrth glywed disgwyliadau mor chwyldroadol yn cael eu cyhoeddi ac Iesu'n cael ei uniaethu â'r gobeithion hynny.

Yn lle cilio rhag Bartimeus, oeddodd Iesu i ymateb iddo. Er iddynt geisio'i atal eiliadau ynghynt, cafodd y disgyblion ail gyfle. 'Galwch arno,' meddai Iesu. A chan ufuddhau i'r alwad y tro hwn, cawsant y fraint o'i dywys at Iesu gydag anogaethau cynnes llawn cysur (adn 49).

Tybed beth oedd yn mynd drwy feddwl Bartimeus pan holodd Iesu ef, 'Beth yr

wyt ti am i mi ei wneud iti?' Tybed nad oedd Iesu am i Bartimeus ddeall y byddai'r drugaredd a geisai'n chwyldroi ei fywyd yn llwyr. Mae gweld wedi dallineb, clywed wedi byddardod, llefaru wedi mudandod, bywyd a maddeuant ac adferiad oll yn brofiadau chwyldroadol!

Pan ofynnodd Iesu gwestiwn tebyg i hwn i lago ac Ioan (10:36), roeddent wedi ceisio ganddo awdurdod a llywodraeth a statws. Ond roedd Bartimeus wedi deall cymaint â hyn: bod Meseia Duw wedi dod yn agos ato a Mab Dafydd gerllaw iddo. A gwyddai gymaint â hyn: sef ei fod am 'weld'. Am weld go iawn, am weld Iesu.

Nid oedd gan Bartimeus ddim i'w gynnig i Iesu. Iesu, nid ei 'weithred' o ffydd, a'i hiachodd. Dim ond derbyn y drugaredd a geisai, derbyn trugaredd a rhodd rasol Duw drwy ffydd.

Cyn belled ag roedd Marc yn y cwestiwn felly, roedd Bartimeus yn batrwm o'r efengyl ei hun ac o'r ymateb priodol i ddyfodiad Iesu. Canlyniad ffydd yn Iesu, bob amser, yw: 'Dos, y mae dy ffydd wedi dy iacháu di.' Ond ei effaith bob amser yw: 'dechreuodd ei ganlyn ar hyd y ffordd'.

### Gwedd

Arglwydd, yn dy dosturi clyw ni wrth i ni alw arnat.

Nid ydym yn medru dy weld fel yr hoffem, dy adnabod fel y dymunem. Cyffeswn ein bod yn perthyn i fyd tywyll, i fyd na fyn glywed bod goleuni'r byd wedi dod.

Arglwydd, fel eglwys, maddau i ni os buom yn rhwystr i eraill ddod atat. Arglwydd, yr hyn y dyhëwn amdano heddiw yw cael dy weld, dy adnabod, dy ganmol, dy ddyrchafu, wrth i ninnau drwy ffydd dy ddilyn hyd 'y llwybrau, dyrys du, heb sylu'n ôl'. Ac yn ein cerddediad, hoffem fedru cerdded yn agos atat, gan wybod dy fod o'n blaenau ac yn ein hymyl. Tyrd atom, Ysbryd Glân, gan agor ein llygaid i weld yr Iesu: 'fel bo i eraill drwom ni / adnabod cariad Duw'!

Arglwydd Dad, gogonedda dy hun. Amen.

**Emyn 263 'O agor fy llygaid'**

\*\* Os hoffai unrhyw un ddilyn y daith ac adnabod tirwedd y llwybr a gymerodd Iesu o Jericho i Jerwsalem ewch i <http://www.israelandyou.com/jericho-to-jerusalem/>

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)